# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Safonau ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Lewis Owen**<br><br>**Y Tîm Cydraddoldeb - Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar** |
| **Adran:** | **Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Emma Spear** |
| **Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:** | **Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol** |
| **Dyddiad Cychwyn:** | |

# CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau gweithredu mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried, a pham? ........ 3

Adran 8. Casgliad ........ 7

Adran 9. Datganiad ........ 11

# ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED, A PHAM?

(Noder y bydd yr Adran hon yn cael ei chyhoeddi)

**Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut ydych chi wedi / y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau gweithredu a gynigir yn y polisi a'r cylch cyflenwi drwyddo draw?**

*Ni ddylai fod dros 1,000 o eiriau. Bydd y mathau o gwestiynau y dylech ystyried eu hateb yn cynnwys, er enghraifft:*

Mae Llywodraeth Cymru yn ehangu ac yn adnewyddu Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy. Yn 2023, adolygodd Llywodraeth Cymru effeithiolrwydd y Safonau, ac archwiliodd y rhwystrau sy'n wynebu pobl wrth gael mynediad at ofal iechyd. Mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr o GIG Cymru a phartneriaid allanol, datblygodd Llywodraeth Cymru argymhellion a chamau gweithredu gyda'r nod o ddileu rhwystrau a sicrhau bod anghenion cyfathrebu a gwybodaeth cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, rhieni a gofalwyr yn cael eu diwallu yn gyson.

Bydd y Safonau sydd wedi'u hadnewyddu nawr yn cynnwys cleifion nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu prif iaith; cleifion sy'n wynebu rhwystrau iaith a chyfathrebu oherwydd anabledd, dementia, cyflyrau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu; cleifion sy'n wynebu rhwystrau iaith a chyfathrebu sy'n deillio o niwrowahaniaeth; cleifion sy'n wynebu rhwystrau iaith a chyfathrebu sy'n deillio o lefelau llythrennedd isel; a rhieni a gofalwyr (cleifion) sy'n wynebu rhwystrau iaith neu gyfathrebu.

Mae'r Safonau yn cael eu hategu hefyd gan y *Weithdrefn Weithredu Safonol: Comisiynu Gwasanaethau Dehongli a Chyfieithu ym maes Gofal Iechyd Sylfaenol ac Argyfwng (SOP)* a'r *Safon Gwybodaeth Hygyrch (AIS)*. Mae'r SOP yn ddogfen ganllaw gynhwysfawr ar gyfer staff y GIG i sicrhau bod ansawdd a safonau cyson yn cael eu cynnal wrth gomisiynu gwasanaethau dehongli a/neu gyfieithu. Mae'r AIS yn cyfarwyddo ac yn diffinio dull penodol a chyson o nodi, cofnodi, amlygu, rhannu a diwallu anghenion gwybodaeth a chyfathrebu cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a rhieni ar gyfer meddygfeydd meddygon teulu; cyhoeddwyd y safon trwy Gylchlythyr Iechyd Cymru yn 2018 ac mae wedi'i gynnwys yn y Safonau hyn er cysondeb. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn helpu i ddarparu gwasanaethau teg a chyson er mwyn cefnogi mynediad a gwella profiadau a chanlyniadau cleifion.

Mae'r Safonau yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n pwysleisio meddwl hirdymor ac yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Yn yr **hirdymor**, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i'r Safonau gael eu hwyluso'n fwy effeithiol trwy gaffael systemau'r GIG a fyddai'n sicrhau bod modd trosglwyddo gwybodaeth yn haws. Gallai cydweithio agosach rhwng cyrff y GIG hwyluso effeithiolrwydd y Safonau hefyd.

Mae'n bosibl y bydd heriau wrth gyflwyno'r Safonau hyn hefyd, megis pwysau cynyddol ar gyrff y GIG, yn ogystal â systemau TG annigonol oddi mewn i'r cyrff. Serch hynny, mae'r heriau hyn wedi bodoli ac wedi bod yn hysbys ers cryn amser, ac mae'r Safonau wedi'u llunio ar y cyd â rhanddeiliaid er mwyn gallu eu cyflwyno serch hyn. Mae hyn yn cynnwys y mesurau a'r dangosyddion, sydd wedi cael eu profi gyda chyrff y GIG i sicrhau bod modd eu cyflawni (gan gydnabod hefyd bod angen gwneud rhagor o waith i helpu i gasglu data) a bydd yn sicrhau bod modd mesur cynnydd yn effeithiol.

Trwy sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn hygyrch i unigolion sydd ag anghenion cyfathrebu a gwybodaeth ychwanegol, mae'r safonau yn hyrwyddo mynediad teg at ofal iechyd. Mae hyn yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd ac yn sicrhau bod pob unigolyn, waeth beth yw ei anghenion cyfathrebu, yn gallu cael gofal meddygol amserol a phriodol. Mae'r safonau yn pwysleisio pwysigrwydd casglu, cadw a rhannu gwybodaeth gywir am gleifion er mwyn sicrhau bod darparwyr gofal iechyd yn gallu diwallu anghenion cyfathrebu pob claf. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau iechyd gwell gan fod cleifion yn fwy tebygol o ddeall eu cyflyrau iechyd, eu dewisiadau o ran triniaeth, a'u cynlluniau gofal – gan helpu i ganolbwyntio ar **atal,** yn ogystal ag **integreiddio** ar draws gwasanaethau. Wrth wneud hyn, mae'r Safonau yn cefnogi'n uniongyrchol y **Ddyletswydd Ansawdd** - a'i ffocws ar ddarparu gofal diogel, amserol, effeithiol, teg ac effeithlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Hefyd, mae'r ddogfen yn nodi'r ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau gofal iechyd. Mae'r dull gweithredu rhagweithiol hwn yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn rhagweld ac yn diwallu anghenion unigolion ag anghenion cyfathrebu ychwanegol, gan hyrwyddo urddas a pharch trwy wneud hynny.

Mae'r Safonau yn mynd i'r afael ag anghenion poblogaethau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, fel y rhai sydd ag amhariad ar y synhwyrau, unigolion niwrowahanol, a'r rhai nad ydynt yn hyfedr iawn yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Trwy sicrhau nad oes unrhyw glaf yn cael ei adael ar ôl oherwydd rhwystrau cyfathrebu, mae'r Safonau yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Mae'r dull gweithredu hwn yn cefnogi **datblygu cynaliadwy** trwy hyrwyddo cydraddoldeb a lleihau gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol, sy'n elfennau hanfodol o dorri'r cylch tlodi ac iechyd gwael.

Mae'r Safonau yn cynnwys darpariaethau ar gyfer adolygu a monitro rheolaidd – gyda phartneriaid allweddol yn cael eu **cynnwys** yn y gwaith hwn – gan adrodd am gynnydd i Fwrdd a Thîm Gweithredol corff y GIG. Mae hyn yn sicrhau bod y Safonau yn cael eu

gwella a'u haddasu yn barhaus er mwyn diwallu anghenion esblygol cleifion yn ogystal â'r gwasanaethau eu hunain.

Trwy ymgorffori cydraddoldeb a hawliau dynol yn y system gofal iechyd, mae'r safonau yn helpu i ddarparu gwasanaethau teg ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor darpariaeth gofal iechyd.

Mae gan y Safonau amcan cyffredinol o sicrhau bod cleifion a/neu eu rhieni neu ofalwyr sydd ag anghenion cyfathrebu a gwybodaeth ychwanegol yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd heb rwystrau neu anhawster ychwanegol. Mae hyn yn meithrin ymdeimlad o ymddiriedaeth a diogelwch yn y system gofal iechyd, gan annog cleifion i geisio gofal pan fydd ei angen arnynt a chymryd rhan weithredol yn eu penderfyniadau gofal iechyd. Hefyd, mae'n sicrhau mai diogelwch cleifion sy'n cael y flaenoriaeth. Gall hyn arwain at ostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd ar gyfer rhai grwpiau gan y byddant yn gallu cael mynediad haws at wasanaethau er mwyn gallu diwallu eu hanghenion gofal iechyd.

Trwy gydol y broses o adnewyddu ac ehangu'r Safonau, mae **cydweithio** gyda rhanddeiliaid amrywiol wedi bod yn allweddol, gan gynnwys:

Timau Polisi Llywodraeth Cymru

Gweithrediaeth GIG Cymru (Perfformiad a Gwella GIG Cymru erbyn hyn)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain

Anabledd Dysgu Cymru

Lleisiau Dementia

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar

Prifysgol Abertawe

Gwasanaeth Cyfieithu Cymru

Mae sesiynau rheolaidd gyda rhanddeiliaid wedi cael eu cynnal ers 2023 er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn a sicrhau bod lleisiau a safbwyntiau amrywiol yn cael eu hystyried. Hefyd, aed ati i gydweithio â'r rhai sydd â phrofiad bywyd er mwyn sicrhau bod y Safonau yn addas i'r diben wrth wasanaethu'r rhai sydd ag anghenion cyfathrebu a gwybodaeth ychwanegol.

O ran effaith, mae'r Safonau hyn eisoes ar waith ar ffurf Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy ers 2023, yn ogystal â'r Safon Gwybodaeth Hygyrch ers 2018. Dylai bod cyrff y GIG yng Nghymru wedi bod yn gweithredu'r rhain eisoes, a bydd y broses o ehangu'r Safonau hyn yn datblygu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Bydd ehangu'r Safonau yn helpu i wella mynediad at wasanaethau i fwy o bobl sy'n wynebu rhwystrau i ofal iechyd oherwydd cyfathrebu, gan leihau anghydraddoldeb iechyd ar gyfer y grwpiau hyn.

Bydd y Safonau'n cael eu cyhoeddi drwy Gylchlythyr Iechyd Cymru i holl gyrff y GIG yng Nghymru ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.

# ADRAN 8. CASGLIAD

(DS: bydd yr Adran hon yn cael ei chyhoeddi)

### 8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnwys pobl. Yn dilyn cymeradwyaeth gweinidogol i ehangu ac adnewyddu'r Safonau, cydweithiodd Llywodraeth Cymru â'r rhanddeiliaid hyn er mwyn datblygu'r argymhellion a'r camau gweithredu sydd â'r nod o ddileu rhwystrau a diwallu anghenion cyfathrebu a gwybodaeth cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, rhieni a gofalwyr.

Roedd y grŵp rhanddeiliaid yn cynnwys ystod eang o unigolion, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a'r rhai sy'n meddu ar brofiadau bywyd. Roedd cynnwys y safbwyntiau amrywiol hyn yn hollbwysig i ddatblygu safonau wedi'u hadnewyddu a oedd yn mynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth sy'n cael ei heffeithio. Mae ein rhanddeiliaid yn cynrychioli'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau o grwpiau amrywiol o'r boblogaeth, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Pan rydym wedi derbyn adborth a mewnbwn gan randdeiliaid, maent wedi bod yn gyfrifol am ystyried a darparu gwybodaeth am eu defnyddwyr gwasanaethau sy'n blant a phobl ifanc, ac am ystyried y ffordd orau o sicrhau bod y Safonau wedi'u hadnewyddu yn gallu gwella mynediad at wasanaethau gofal iechyd iddynt.

Roedd integreiddio argymhellion o adroddiad HEAR 2 yn bwysig iawn, wrth sicrhau bod profiadau bywyd ceiswyr lloches a ffoaduriaid o gael mynediad at wasanaethau iechyd yn cael eu hystyried. Cyfeiriwyd at rwystrau iaith yn gyson fel un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu pobl sy'n ceisio lloches, yn enwedig anawsterau o ran dehongli a chyfieithu.[1] Codwyd y mater hwn hefyd pan ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil drafft yn 2021. Nod y dull gweithredu cyfannol hwn oedd nid yn unig nodi ond hefyd fynd i'r afael â'r heriau unigryw sy'n wynebu'r unigolion hyn.

Yn ogystal, roedd siaradwyr Cymraeg yn aelodau o'r gweithgor. Cafodd swyddogion polisi'r Gymraeg eu hysbysu a'u cynnwys yn gyson yn y broses er mwyn sicrhau bod yr holl benderfyniadau a wnaed yn cyd-fynd â dyheadau 'Mwy Na Geiriau'. Nod y polisi hwn yw hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith. Trwy gynnwys swyddogion polisi'r Gymraeg, llwyddodd y gweithgor i sicrhau y byddai'r safonau wedi'u hadnewyddu yn cefnogi ac yn gwella'r nodau ieithyddol hyn, gan ddarparu

[1] https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/07/HEAR-Report-ES-Welsh-FINAL.pdf

fframwaith cyfathrebu mwy cynhwysol sy'n parchu diwylliannau oddi mewn i wasanaethau gofal iechyd.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Mae'r Safonau yn amlygu nifer o effeithiau cadarnhaol a fydd yn cael effaith hirdymor ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Bydd y Safonau yn sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd ar gael i bob defnyddiwr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion cyfathrebu a gwybodaeth ychwanegol. Mae tegwch o ran mynediad yn hanfodol er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd, ac mae'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu yn dangos bod y Safonau yn gallu cael yr effaith hon ar wasanaethau ledled Cymru os ydynt yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Os yw defnyddwyr gwasanaethau yn gallu deall y sgyrsiau rhyngddyn nhw a'u darparwr gofal iechyd, maent yn llai tebygol o fethu apwyntiadau, a byddant yn gallu deall unrhyw wybodaeth am driniaeth yn well. Mae'r broses hon yn cryfhau eu hymdeimlad o ymddiriedaeth mewn gwasanaethau, ac mae'n bosibl y byddant yn defnyddio mwy ar y gwasanaethau hyn yn y dyfodol o ganlyniad.

Mae'r effaith ar blant a phobl ifanc yn gadarnhaol iawn hefyd trwy ddileu'r angen i lawer ohonynt ddehongli ar ran aelodau eu teulu, gan leihau'r pwysau arnynt.

Bydd dyhead cyffredinol y Safonau a'u gweithredu yn hyrwyddo cyfathrebu sy'n ystyried ac yn dangos parch at yr holl ddefnyddwyr gwasanaethau, gan feithrin amgylchedd cadarnhaol a llawn ymddiriedaeth ar gyfer darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau. O dan y Ddyletswydd Ansawdd, dylai holl gyrff y GIG yng Nghymru sicrhau bod eu penderfyniadau yn helpu i ddarparu gofal sy'n ddiogel, yn amserol, yn effeithiol, yn effeithlon, yn deg ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn diffinio 'Teg' fel hyn:

*Mae ein system gofal iechyd yn rhoi cyfle cyfartal i bawb gyflawni eu potensial llawn ar gyfer bywyd iach nad yw'n amrywio o ran ansawdd oherwydd nodweddion personol fel oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hil, dewis iaith, anabledd, crefydd neu gredoau, statws economaidd-gymdeithasol neu ymlyniad gwleidyddol; y sefydliad sy'n darparu gofal; neu leoliad lle darperir gofal. Rydym yn ymgorffori cydraddoldeb a hawliau dynol yn ein system gofal iechyd.*

Ac mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn diffinio 'Canolbwyntio ar yr unigolyn' fel hyn:

*Mae ein system gofal iechyd yn diwallu anghenion pobl ac yn sicrhau bod eu dewisiadau, eu hanghenion a'u gwerthoedd yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau a wneir mewn partneriaeth rhwng unigolion a'r gweithlu. Mae lles unigolion, eu teuluoedd, gofalwyr a'n staff yn bwysig i ni. Rydym yn sicrhau bod pawb bob amser yn cael eu trin â charedigrwydd, empathi a thosturi ac rydym yn parchu eu preifatrwydd, eu hurddas a'u hawliau dynol. Rydym wedi ymrwymo i weithio'n well gyda'n gilydd i roi pobl a'u teuluoedd*

*wrth galon penderfyniadau, gan eu gweld fel arbenigwyr yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol i gael y canlyniad a'r profiad gorau.*

Trwy hyrwyddo prosesau cyfathrebu sy'n seiliedig ar barch a chydweithio, mae'r Safonau yn creu awyrgylch sy'n ffafriol i ddarparu gofal iechyd effeithiol a llawn empathi, sydd yn ei hanfod yn deg ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Bydd y Safonau yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol, gan sicrhau bod pob defnyddiwr yn gallu cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn hawdd ac yn effeithiol, heb rwystrau ychwanegol. Mae'r dull gweithredu cynhwysol hwn yn allweddol i lwyddiant ac effeithiolrwydd y Safonau, gan sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn fwy hygyrch a theg i bawb.

Roedd datblygu'r Safonau yn cynnwys dull gweithredu cynhwysfawr a chynhwysol er mwyn ystyried anghenion pob defnyddiwr. Amlygwyd sawl agwedd allweddol yn ystod y broses hon. Yn gyntaf, cynhaliwyd ymgynghoriadau helaeth gyda rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys unigolion ag amhariad ar y synhwyrau, anableddau dysgu, a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau cyfathrebu oherwydd gwahaniaethau iaith. Llwyddodd hyn i sicrhau bod y Safonau yn mynd i'r afael â'r anghenion a'r heriau penodol sy'n wynebu'r grwpiau hyn. Yn ogystal, mae prosesau cydweithio helaeth wedi bod ar waith gyda chyrff y GIG a grwpiau'r trydydd sector sy'n cynrychioli'r rhai sydd â phrofiad bywyd er mwyn nodi a dileu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael mynediad at wasanaethau iechyd. Cyfrannodd y cydweithio hwn at greu fframwaith cyfathrebu a gwybodaeth mwy cynhwysol a hygyrch sydd wedi arwain at gydgynhyrchu'r Safonau eu hunain. Roedd adborth a mewnbwn gan ddefnyddwyr, darparwyr gofal iechyd, a grwpiau eirioli hefyd yn hanfodol wrth lunio'r Safonau. O ganlyniad, roedd modd sicrhau bod y Safonau yn ymarferol ac yn effeithiol a'u bod yn ymateb i anghenion yr holl ddefnyddwyr.

Cynhaliwyd profion peilot o'r Safonau mewn lleoliadau gwahanol er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd a nodi meysydd i'w gwella. Diolch i'r adborth a gafwyd yn ystod y cam hwn, roedd modd gwneud addasiadau cyn cyflwyno'r fersiwn derfynol o'r Safonau.

Mae prosesau ymgysylltu â defnyddwyr a rhanddeiliaid wedi parhau er mwyn sicrhau bod y Safonau yn dal i fod yn berthnasol ac effeithiol. Gwnaeth y ddolen adborth parhaus hon hwyluso diweddariadau a gwelliannau angenrheidiol dros amser. Trwy gynnwys pobl trwy gydol y broses ddatblygu, mae'r Safonau yn gallu mynd i'r afael ag anghenion amrywiol defnyddwyr mewn ffordd gynhwysfawr a sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn hygyrch i bawb.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**

- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae creu cyfleoedd cyfathrebu hygyrch i gleifion yn y GIG yn cefnogi'n uniongyrchol egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) ac yn cyd-fynd â'r egwyddorion hynny. Mae'r Ddeddf yn pwysleisio pwysigrwydd meddwl yn yr hirdymor, a'i nod yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Trwy sicrhau bod cyfathrebu yn y GIG yn hygyrch i bob claf, gan gynnwys y rhai sydd ag anableddau dysgu neu rwystrau iaith, bydd GIG Cymru yn gallu darparu system gofal iechyd fwy cynhwysol a theg.

Un o brif amcanion y Ddeddf yw creu "Cymru Iachach". Mae cyfathrebu hygyrch yn sicrhau bod pob claf, waeth beth fo'i anghenion cyfathrebu, yn gallu deall yn llawn ei gyflyrau iechyd, ei opsiynau o ran triniaeth, a'i gynlluniau gofal. Mae'r grymuso hwn, trwy ddealltwriaeth, yn arwain at ganlyniadau iechyd gwell, gan fod cleifion yn fwy tebygol o ddilyn cyngor meddygol, cadw at gyfundrefnau meddyginiaeth, a chymryd rhan mewn mesurau iechyd ataliol pan fyddant yn deall yn llawn yr wybodaeth a ddarperir iddynt. Yn ogystal, mae cyfathrebu hygyrch yn meithrin ymdeimlad o ymddiriedaeth a diogelwch yn y system gofal iechyd, gan annog cleifion i geisio gofal pan fo angen a chymryd rhan weithredol yn eu penderfyniadau gofal iechyd.

Ar ben hynny, mae'r Ddeddf yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn lleihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol, sy'n elfennau hanfodol o ddatblygu cynaliadwy. Drwy ddarparu cyfathrebu hygyrch, mae GIG Cymru yn mynd i'r afael ag anghenion poblogaethau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol, fel y rhai sydd ag amhariadau synhwyraidd, pobl niwrowahanol, y rhai ag anableddau dysgu, neu'r rhai heb fawr o hyfedredd yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r dull hwn yn sicrhau nad oes unrhyw glaf yn cael ei adael ar ôl oherwydd rhwystrau cyfathrebu, gan leihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'n cefnogi llesiant diwylliannol Cymru hefyd trwy barchu a darparu ar gyfer amrywiaeth ieithyddol ei phoblogaeth, gan gynnwys y defnydd o'r Gymraeg, yn ogystal â BSL ac ieithoedd cymunedol.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol sydd angen eu lliniaru o ganlyniad i gyhoeddi a gweithredu'r Safonau hyn sydd wedi'u hadnewyddu.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Mae'r broses o lywodraethu a monitro'r Safonau wedi'u hadnewyddu wedi cael ei diweddaru a'i datblygu'n sylweddol er mwyn sicrhau bod y Safonau yn fwy cadarn ac effeithiol. Erbyn hyn, mae'n rhaid i bob corff y GIG benodi swyddog cyfrifol sydd â'r dasg o oruchwylio'r gwaith o weithredu a monitro'r Safonau yn ei sefydliad. Mae'r strwythur llywodraethiant hwn yn ei gwneud yn ofynnol cynnal adolygiad trylwyr o'r Safonau bob dwy flynedd, gan roi cyfle i randdeiliaid perthnasol a swyddogion cyfrifol wneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol.

Yn ogystal, mae'r Safonau wedi'u hadnewyddu yn cynnwys mesurau a dangosyddion cynhwysfawr (gweler atodiad B am fanylion). Mae'n rhaid i bob corff y GIG adrodd ar ei gynnydd yn erbyn y mesurau a'r dangosyddion hyn i Lywodraeth Cymru fel rhan o'i adroddiad sicrwydd polisi ar gyfer y cynllun cydraddoldeb strategol. Mae'r mesurau a'r dangosyddion hyn yn cyd-fynd â Fframwaith Profiad y Claf, gan sicrhau bod yr effaith a'r cynnydd yn cael eu monitro'n fanwl. Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod modd gwneud diwygiadau amserol yn ystod y cyfnodau adolygu, a thrwy hynny sicrhau bod safonau gofal a chyfathrebu GIG Cymru yn gwella yn barhaus.

## **ADRAN 9.** DATGANIAD

Datganiad

Rwyf yn fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: Emma Spear

Adran: Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar

Dyddiad: